

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N DDA

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 19 Mai, 2026.

Mae papurau'r cyfarfod ar [gael yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar [gael yma](#).

I weld y cyflwyniad a'r drafodaeth ddilynol ar gyfer unrhyw eitem agenda Rhan I, cliciwch ar yr hypergyswllt sydd wedi'i gynnwys yn ei deitl isod.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr A.M. Collins (Cadeirydd); B. Loveluck-Edwards (Is-gadeirydd), Y Cynghorwyr I.R. Buckley, C.A. Cave, E. Goodjohn, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, J. Lynch-Wilson, M.J.G. Morgan a N.C. Thomas.

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), Dr. I.J. Johnson, H.M. Payne ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

21 CYHOEDDIAD –

Cyn dechrau busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad canlynol: “A gaf i atgoffa pawb sy’n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio’n fyw yn ogystal â’i recordio dros y rhyngwrdd a bod y recordiad hwn yn cael ei archifo i’w wyllo yn y dyfodol”.

22 [PENODI IS-GADEIRYDD](#) –

ARGYMHELLWYD – BOD y Cynghorydd B. Loveluck-Edwards yn cael ei benodi’n Is-gadeirydd am y flwyddyn ddinesig.

23 [YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB](#) –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorwyr G. Bruce a C.M. Cowpe; ac O. Carroll (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a’r Fro).

24 [DATGANIADAU BUDDIANT](#) –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

25 [COFNODION](#) –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mawrth, 2026 fel cofnod cywir, yn amodol ar gywiro'r gwall teipio o dan ddatganiadau buddiant i adlewyrchu bod y buddiant wedi'i ddatgan gan y Cynghorydd S. Lloyd-Selby yn hytrach na'r Cynghorydd B. Loveluck-Edwards.

26 [ADRODDIAD BLYNYDDOL CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2025-2026 – FERSIWN HER \(CGC\)](#) –

Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fersiwn heriol yr Adroddiad i roi cyfle i'r Aelodau wneud sylwadau a llywio drafft terfynol yn y dyfodol a fyddai'n cael ei ystyried gan y Cabinet.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD – Y dylid cymeradwyo cynnwys Adroddiad y Cyfarwyddwr 2025/26 sydd wedi'i atodi, gyda'r pwyntiau canlynol yn cael eu dwyn ymlaen i lywio drafft terfynol i'w ystyried gan y Cabinet:

- Ychwanegu disgrifiad byr o fformat y data canrannol a ddarperir drwy gydol yr adroddiad i gefnogi dealltwriaeth y darllenwyr;
- Ychwanegu rhifau tudalennau at yr adroddiad sydd wedi'i atodi;
- Ychwanegu unrhyw bwyntiau eglurhad eraill y mae'r Cyfarwyddwr yn teimlo eu bod yn werth eu cael ar ôl bod yn rhan o drafodaeth a sylwadau'r Pwyllgor Craffu.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, rhoi cyfle i Aelodau Etholedig gyfrannu at y broses herio ar gyfer Adroddiad Blynnyddol y Cyfarwyddwr 2025/26, cyn i'r Cabinet ei ystyried.

27 [ADOLYGIAD BLWYDDYN GYNTAF A CHYMERADWYAETH Y RHAGLEN WAITH YMLAEN 2026/27 \(CAC\)](#) –

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu ac amlinellodd y gweithgaredd a'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn Ddinesig flaenorol o dan y trefniadau Craffu diwygiedig. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried a chytuno ar ei Raglen Waith Ymlaen a gynigiwyd ar gyfer 2026/27.

Yn dilyn trafodaeth ar yr eitem, y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD –

- (1) Y dylid cytuno ar y Rhaglen Waith Ymlaen sydd wedi'i hatodi i'r adroddiad, yn amodol ar ychwanegu'r awgrym canlynol:

- Ymweliad Safle'r Pwyllgor â'r Ystafell Reoli CCTV ar y cyd, a weithredir mewn partneriaeth â Chyngor Caerdydd, sy'n monitro camerâu CCTV Bro Morganwg.

(2) Y dylid cyhoeddi'r Rhaglen Waith Ymlaen y cytunwyd arni ar wefan y Cyngor er gwybodaeth i'r cyhoedd.

(3) Y dylid cydnabod y statws presennol mewn perthynas ag Argymhellion Gorchwyl a Gorffen presennol y Pwyllgor a chymeradwyo'r cynnig i dderbyn diweddariad pellach ym mis Tachwedd 2026, gan gynnwys manylion am gynnydd gweithredu a sefydlu system olrhain i alluogi monitro mwy rheolaidd.

(4) Y dylid cytuno ar aelodaeth y Grŵp Gwaith Canolfannau Hamdden fel a ganlyn tan yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027:

Y Cynghorwyr A.M. Collins (Cadeirydd), I.R. Buckley, C.A. Cave,
W.A. Hennessy, J. Lynch-Wilson a N.C. Thomas.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Er mwyn galluogi'r Pwyllgor Craffu i gymeradwyo rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn Ddinesig sydd i ddod sy'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Aelodau, yn sicrhau cynllunio ymlaen llaw effeithiol ac yn cefnogi'r Pwyllgor i gyflawni ei rôl graffu.

(2) Er mwyn hyrwyddo agoredrwydd, tryloywder ac ymgysylltiad cyhoeddus drwy roi gwelededd clir i drigolion, rhanddeiliaid a sefydliadau partner o waith arfaethedig y Pwyllgor ar draws y flwyddyn Ddinesig.

(3) Er mwyn galluogi goruchwyliaeth effeithiol gan y Pwyllgor drwy ddiweddariadau amserol ar gynnydd gweithredu a datblygu system i gefnogi monitro rheolaidd.

(4) I baratoi ar gyfer trefniadau ymweld â Chanolfannau Hamdden yn y dyfodol yn dilyn aelodaeth o'r Pwyllgor, fel y cytunwyd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 13 Mai, 2026.